Countryside Alliance

# HYRWYDDO EIN CEFN GWLAD

## MANIFFESTO AR GYFER CYMRU 2021

# Cynnwys

2
Cyflwyniad

3
Cymunedau gwledig ffyniannus

5
Tyfu'r economi wledig

7
Rheoli ein cefn gwlad

8
Cywain ein cefn gwlad

# Cyflwyniad

Mae Cymru'n wlad a chanddi gefn gwlad godidog, cynhyrchwyr bwyd a diod o'r radd flaenaf, a mwy o gestyll fesul milltir sgwâr nag unrhyw wlad arall yn y byd. Mae ein cefn gwlad yn sail i'n sector twristiaeth, mae'n ardal hamdden, yn bantri a, llawn cyn bwysiced, yn lle gwaith i lawer. Mae hyn i gyd yn golygu ein bod yn gofyn llawer iawn gan ein hadnoddau naturiol.

Gwelwyd newidiadau mawr yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn sgil uchelgais beiddgar am adferiad gwyrdd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ac mae'r pandemig Covid-19 wedi bod yn allweddol wrth greu'r newid cyflymaf mewn cymdeithas mewn canrif.

Mae'r ffaith bod llawer ohonom yn gweithio o gartref bellach wedi amlygu'r gofynion ar ein seilwaith band eang a ffonau symudol. Mae pobl ledled Cymru wedi dechrau tyfu eu bwyd eu hunain, gan bwysleisio'r galw cynyddol gan ddefnyddwyr am filltiroedd bwyd isel a gwybod o ble mae'r bwyd maen nhw'n ei fwyta yn dod. Mae cefn gwlad yn denu pobl sydd eisiau dianc rhag undonedd y cyfnod diweddar, a phrofwyd bod cysylltu â chefn gwlad yn gwella iechyd a lles pobl. Mae Cymru wledig yn ased cenedlaethol, a dyna sut y dylai gael ei thrin.

Bydd adferiad gwyrdd yn bosibl dim ond gyda chyfraniad ac ymroddiad parhaus ein ffermwyr, ciperiaid a cheidwaid afonydd. Mae angen i Aelodau'r Senedd yn y dyfodol ddeall, gwerthfawrogi a hyrwyddo eu gwaith i'w galluogi i barhau i weithredu'n gynaliadwy gyda'r adnoddau sydd eisoes ar gael ac ateb yr heriau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y cyfnod adfer ar ôl Covid.

# Cymunedau gwledig ffyniannus

Mae un o bob tri o bobl yn byw yng Nghymru wledig ac mae'n bwysig bod gan y cymunedau hynny ddyfodol bywiog a chynaliadwy. I sicrhau hyn, mae'n rhaid iddynt gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru trwy bolisïau sy'n gwneud rhywbeth o blaid cefn gwlad yn hytrach nag iddo. Dyna pam mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn credu bod rhaid i bob polisi yng Nghymru gael ei brawfesur o safbwynt cefn gwlad fel nad yw anghenion cymunedau gwledig yn cael eu hanwybyddu a'u rhoi dan anfantais o gymharu â'u cymdogion trefol.

Yn aml, nid yw'r gwasanaethau, nwyddau ac amwynderau mwyaf sylfaenol ar gael i breswylwyr trefi a phentrefi gwledig ledled Cymru. Mae'n rhaid iddynt deithio'n bellach ar gyfer gofal iechyd, gwasanaethau ariannol a siopau, a thalu crocbris am hanfodion sylfaenol fel tanwydd, ar gyfer gwresogi a chludiant. At hynny, mae pryder cynyddol bod troseddau cefn gwlad yn cael effaith niweidiol ar gymunedau yng Nghymru. Nid oedd un o bob pedair trosedd cefn gwlad wedi cael ei hadrodd i'r heddlu, hyd yn oed. Mae gennym sefyllfa lle mae cymunedau gwledig yn teimlo eu bod yn cael eu methu gan y rhai sydd i fod i'w diogelu ac nad yw'r heddlu'n rhoi ystyriaeth o ddifrif i droseddau cefn gwlad, fel dwyn peiriannau amaethyddol, dwyn da byw a thipio anghyfreithlon. Mae plismona gwledig da yn ymwneud â llawer mwy na nifer yr heddweision sydd ar eu rhawd; mae'n ymwneud â gweithio gyda chymunedau i fynd i'r afael â'r problemau hyn sy'n tyfu.

## Troseddau cefn gwlad i fynd i'r afael â nhw yn nhrefn blaenoriaeth[1]





1 Yn ôl Arolwg Troseddau Cefn Gwlad y Gynghrair Cefn Gwlad 2020

Wrth i ni symud y tu hwnt i effeithiau Covid-19, bydd angen i gymunedau gwledig gael cyllid i adfer a sicrhau dyfodol prosiectau cymunedol llwyddiannus sydd dan fygythiad oherwydd y pandemig. Mae llawer o bobl agored i niwed wedi cael eu datgysylltu'n gymdeithasol, a'r unig ffordd y gallwn ddychwelyd i fywyd arferol yn llwyddiannus yw os yw cymunedau'n cael eu cefnogi'n ddigonol. Mae'r pandemig hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd cysylltedd band eang a digidol. Er bod Cymru wedi cyflwyno'r rhaglen o ddarparu cwmpas band eang yn gymharol lwyddiannus, mae ansawdd y cwmpas hwnnw, o ran dibynadwyedd a chyflymder, yn amrywio'n fawr ar draws y wlad. Er y canolbwyntiwyd ar ddarparu band eang, mae signalau ffôn symudol gwael yn parhau i gyflwyno her, ac nid oes llawer o gynnydd wedi'i wneud.

Mae'r pandemig wedi amlygu anghenion cymunedau gwledig, ond hefyd pwysigrwydd y cymunedau hynny i economi Cymru ac iechyd a ffyniant Cymru.

**Mae un o bob tri o bobl yn byw yng Nghymru wledig**



## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Sicrhau bod polisïau'n cael eu prawfesur o safbwynt anghenion cefn gwlad, fel nad yw cymunedau gwledig yn cael eu rhoi dan anfantais gan bolisi sy'n cynnig 'un ateb i bawb'.**
- **Gweithio gyda'r heddlu, awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod troseddau cefn gwlad yn cael eu hystyried o ddifrif a bod eu heffeithiau ar gymunedau gwledig yn cael eu deall ac yn derbyn sylw.**
- **Ailasesu'r cysylltedd band eang a ffonau symudol presennol ledled Cymru, gan amlygu'r ardaloedd sydd ag ychydig o signal neu ddim signal a rhoi blaenoriaeth i'w cysylltu nhw'n ddigidol.**

# Tyfu'r economi wledig

Mae ei thraethau baner las godidog, ei thirnodau a'i hadeiladau hanesyddol a'i thirweddau i'w harchwilio, ynghyd â bwyd a llety o'r radd flaenaf, yn golygu bod Cymru yn gyrchfan berffaith ar gyfer gwyliau gartref ac ymwelwyr o bedwar ban byd. Felly, nid yw'n syndod bod Cymru yn dibynnu'n fawr ar dwristiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r amgylchedd naturiol yn brif atyniad. Mae'n hollbwysig bod Llywodraeth newydd Cymru yn cefnogi'r diwydiant pwysig hwn ac yn caniatáu iddo ffynnu.

Profwyd bod gallu mynd allan i'r awyr agored yn gwella iechyd a lles pobl, a byddai byrddau iechyd cyhoeddus, a'r sector iechyd cyfan, yn elwa'n fawr o ymgysylltu â rheolwyr tir i ddatgloi potensial Cymru wledig i wella iechyd y genedl, gan felly gyfrannu at yr economi wledig. Mae angen clir am ymgysylltu mwy â'r awyr agored trwy addysgu pobl o bob oed, fel mae'r pandemig wedi'i ddangos.

Mae diwygio mynediad wedi bod ar yr agenda yng Nghymru ers tro, ac mae pwysau cynyddol ar dirfeddianwyr i ddarparu mwy o dir a dŵr ar gyfer hamdden awyr agored. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyn gael ei wneud yn wirfoddol ac ar sail gwobrwyo, a chael ei ymgorffori mewn unrhyw gynllun cymorth amaethyddol yn y dyfodol sy'n disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP). Mae'n hanfodol bod Llywodraeth nesaf Cymru yn cydnabod bod rhaid i unrhyw hawliau mynediad newydd gael eu datblygu gyda'r ddealltwriaeth mai gweithle, yn ogystal â chartref, yw cefn gwlad Cymru i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yno. Yn ei hanfod, mae'n rhaid i gynyddu hawliau mynediad barchu hawliau cymunedau a pheidio â bod yn niweidiol i fusnesau gwledig na'r amgylchedd.

**Mae saethu yng Nghymru yn cyfrannu £75 miliwn at yr economi wledig ac yn darparu cwsmeriaeth i dafarnau a gwestai gwledig yn ystod misoedd tawelach y gaeaf.**



Mae angen rhoi cydnabyddiaeth briodol i bwysigrwydd economaidd gweithgareddau gwledig i economi Cymru hefyd, yn enwedig gan fod y buddion hyn yn digwydd 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn ac felly'n gwneud cyfraniad unigryw at unrhyw strategaeth dwristiaeth ac economïau lleol. Mae saethu yng Nghymru yn cyfrannu £75 miliwn at yr economi wledig ac yn darparu cwsmeriaeth i dafarnau a gwestai gwledig yn ystod misoedd tawelach y gaeaf. Gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n genweirio yng Nghymru. Roedd gwerthiannau trwyddedau pysgota â gwialen yn uwch erbyn diwedd mis Hydref 2020 nag oeddent ym mis Hydref 2019, ac mae buddion genweirio i iechyd a lles wedi'u dangos yn eang.

## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- Sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau mynediad yn parchu hawliau presennol ac yn ystyriol o'r amgylchedd.
- Gwarantu y bydd unrhyw gynllun sy'n disodli'r CAP yn cefnogi cynhyrchu bwyd, yn ogystal â gwobrwyo ffermwyr a rheolwyr tir am y buddion cymdeithasol ac amgylcheddol niferus maen nhw'n eu darparu
- Gweithredu strategaeth twristiaeth chwaraeon cefn gwlad i hybu twristiaeth, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.

**Roedd gwerthiannau trwyddedau pysgota â gwialen yn uwch erbyn diwedd mis Hydref 2020 nag oeddent ym mis Hydref 2019**



# Rheoli ein cefn gwlad

Mae cefn gwlad Cymru wedi cael ei reoli dros ganrifoedd lawer. Dylai rheoli bywyd gwyllt anelu'n bennaf at gynnal poblogaethau iach a chytbwys o anifeiliaid gwyllt ar lefelau y gellir eu cynnal gan eu hamgylchedd lleol, ac sy'n dderbyniol i ffermwyr, tirfeddianwyr a chydbwysedd cyffredinol yr holl fathau eraill o fywyd gwyllt. Mae diffyg rheolaeth yn bygwth poblogaethau bregus, bioamrywiaeth, cadwraeth cynefinoedd a chynhyrchu bwyd.

Y ffordd orau o reoli bywyd gwyllt yw trwy gyfuniad o ddulliau a gynhelir gan ffermwyr, ciperiaid, a rheolwyr tir eraill, gyda'u gwahanol fuddiannau, a chan ddefnyddio'r dulliau priodol yn eu hamgylchiadau penodol. Nid oes gwrthdaro rhwng lles anifeiliaid a rheoli bywyd gwyllt yn briodol.

Mae'r rheiny sy'n ffafrio ac yn hyrwyddo'r agenda hawliau anifeiliaid, yn wahanol i les anifeiliaid, yn aml yn argymell dulliau nad ydynt yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth ac sydd felly'n rhwystro rheolaeth, ar draul bywyd gwyllt a'r amgylchedd. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru seilio ei pholisïau ar egwyddor a thystiolaeth, a gwrthsefyll y pwysau gan ddeisebau ac arolygon barn, sydd wedi'u seilio ar ideoleg yn hytrach na'r hyn sydd orau i fywyd gwyllt yn ôl tystiolaeth wrthrychol.



## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Sicrhau bod ymagwedd gyson, egwyddorol, wedi'i seilio ar dystiolaeth tuag at reoli bywyd gwyllt a diogelu cynefinoedd ar gyfer pob rhywogaeth.**
- **Cydnabod a chefnogi pwysigrwydd rheoli bywyd gwyllt a gwerth hela, saethu a physgota i economi wledig Cymru.**
- **Datblygu polisïau rheoli amgylcheddol a bywyd gwyllt, gan weithio gyda rhanddeiliaid ac ymarferwyr, fel ffermwyr a chiperiaid, er budd planhigion ac anifeiliaid Cymru.**

# Cywain ein cefn gwlad

Mae ein ffermwyr a'n cynhyrchwyr bwyd nid yn unig yn cynhyrchu nwyddau o'r radd flaenaf sy'n cael eu mwynhau gartref a thramor, ond hefyd yn gyfrifol am reoli a gwella ein cefn gwlad hardd.

Mae gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi arwain at gyfleoedd yn ogystal â heriau, ac mae angen i Lywodraeth Cymru nid yn unig hyrwyddo ein ffermwyr ond hefyd gweithio gyda nhw yn ystod y blynyddoedd pontio er mwyn sicrhau y gallant gystadlu ar raddfa fyd-eang.

Yn arbennig, mae'r sector bwyd a diod yng Nghymru yn arloesol iawn ac yn elwa o hunaniaeth ddaearyddol gref ei gynhyrchion. Mae cynnyrch fel Gower Gold, Caws Cenarth a Halen Môn yn dangos yr angen i'r sector gael ei integreiddio i strategaeth dwristiaeth ar gyfer Cymru. Mae potensial mawr i lwybrau bwyd dywys pobl ar daith o amgylch Cymru sy'n tynnu dŵr i'r dannedd. Mae'n rhaid i ni adeiladu ar "frand Cymru" a ffurfio cysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd a thwristiaeth.

Bu cynnydd mawr mewn gwerthu hadau llysiau a ffrwythau yn 2020 wrth i bobl a oedd yn gaeth i'w cartrefi ddangos awydd i dyfu eu cynnyrch eu hunain. Gwelodd siopau cigydd a fferm gynnydd mawr mewn gwerthiannau hefyd wrth i'r cyhoedd droi atynt ar gyfer eu siopa wythnosol lleol, yn awyddus i brynu cynnyrch a dyfwyd yn lleol ac i safonau sydd ymhlith yr uchaf yn y byd.



Mae galw cynyddol hefyd i gywain helgig o gefn gwlad, sy'n rhoi'r cymhelliad, ac yn aml y cyllid angenrheidiol, i ffermwyr a rheolwyr tir gynnal cynefinoedd bregus a ffyniannus ledled Cymru trwy reoli'r tir er budd saethu anifeiliaid hela.

Mae'n rhaid i ni wneud popeth y gallwn i ymestyn y sector helgig yng Nghymru, ac mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru fuddsoddi yn yr adnoddau sy'n angenrheidiol i annog canolfannau prosesu helgig, gan alluogi helgig o Gymru i gystadlu â gweddill y Deyrnas Unedig.



## Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i:

- **Adeiladu ar "frand Cymru" a pharhau i fuddsoddi mewn hyrwyddo cynnyrch o'r radd flaenaf o Gymru ar draws y byd.**
- **Datblygu taith fwyd ledled Cymru sy'n tynnu dŵr i'r dannedd, gan ymgorffori cynhyrchu bwyd a lletygarwch mewn strategaeth benodol ar gyfer twristiaeth fwyd.**
- **Hyrwyddo helgig o Gymru law yn llaw â chynhyrchion cig eraill a datblygu strategaeth farchnata ar gyfer pob math o helgig, sy'n dangos y buddion cadwraeth ac economaidd sy'n gysylltiedig â rheoli anifeiliaid hela.**

Y Gynghrair Cefn Gwlad

**E-bost:** political@countryside-alliance.org
**Rhif ffôn:** 0207 840 9260

countryside-alliance.org